UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Cyngor Proffesiynol

Arweiniad i aelodau UCAC yn ystod gweithredu diwydiannol gweithwyr mewn undebau eraill

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Arweiniad i Aelodau UCAC yn ystod gweithredu diwydiannol gweithwyr mewn undebau eraill

Mae'r daflen hon yn cynnig arweiniad i aelodau UCAC yn y sefyllfa honno pan fydd aelodau o undebau eraill yn gweithredu'n ddiwydiannol.

Gweithredu diwydiannol gan weithwyr atodol e.e. gofalwyr a glanhawyr

- Er ei bod yn arferol i'r gofalwr i agor yr ysgol, mae gan y Pennaeth yr hawl i agor yr ysgol yn y bore a'i gloi gyda'r nos yn absenoldeb y gofalwr, hyd yn oed mewn sefyllfa gweithredu diwydiannol.
- Cyn penderfynu os ydi o am ymgymryd â'r cyfrifoldeb am agor yr ysgol, mae'n rhaid i'r Pennaeth ystyried yn ofalus iechyd a diogelwch y plant a'r athrawon/darlithwyr, e.e. glendid y gegin, toiledau, beth i wneud â'r ysbwriel ag ati. Rhaid ystyried y bydd yr adeilad yn lân ar ddiwrnod y gweithredu diwydiannol ond bydd heb ei lanhau erbyn y diwrnod canlynol.

Gweithredu diwydiannol gan athrawon neu ddarlithwyr sydd mewn undebau eraill neu gan weithwyr atodol:

- Cyn penderfynu os ydi o am ymgymryd â'r cyfrifoldeb am agor yr ysgol, mae'n rhaid i'r Pennaeth ystyried yn ofalus iechyd a diogelwch y plant a'r athrawon/darlithwyr. Rhaid ystyried niferoedd e.e. os oes nifer sylweddol o staff yn absennol, a fydd modd cynnal gwersi arferol i ddisgyblion?
- Os yw'r sefydliad ar agor, disgwylir i'r athrawon/darlithwyr weithio fel arfer a chyflawni eu dyletswyddau arferol, e.e. addysgu, dyletswydd buarth ac amser cinio. Os oes picedu y tu allan i'r adeilad, disgwylir i'r athrawon/darlithwyr i groesi'r llinell. Os yw athro/darlithydd yn penderfynu peidio â chroesi'r llinell piced, golyga hyn y bydd yn torri ei gytundeb, ac fe all gael ei ddisgyblu ar ben colli ei gyflog.
- Os yw'r ysgol/coleg ar agor, disgwylir i aelodau UCAC i gyflawni eu dyletswyddau arferol. Nid yw aelod o UCAC i weithredu mewn unrhyw fodd a all gael ei ddehongli yn weithred sy'n tanseilio gweithredu diwydiannol aelod o undeb arall.

01970 639950 | ucac@athrawon.com | www.athrawon.com GDiw

- Nid yw athrawon/darlithwyr i gyflenwi unrhyw ddyletswyddau sy'n ychwanegol i'w gwaith arferol, yn enwedig os yw'r dyletswyddau yma yn rhan o waith arferol person sy'n gweithredu'n ddiwydiannol.
- Os oes gweithiwr yn aros i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch ar ddiwrnod streic gweithwyr o undeb arall mae hawl gan y cyflogwr i ofyn am bapur meddyg swyddogol am y diwrnod hwnnw.
- Rhaid trefnu gyda phrif swyddfa UCAC balot o aelodau UCAC yn yr ysgol/ coleg os am drefnu streic i aelodau UCAC gan nad oes hawl gweithredu'n ddiwydiannol heb fynd trwy'r drefn gyfreithiol.

Dyma restr o swyddogion cyflogedig UCAC – mae croeso mawr i chi gysylltu â nhw am gyngor pellach:

- Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol - elaine@athrawon.com
- Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd – eryl@athrawon.com
- Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De – dilwyn@athrawon.com
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi – rebecca@athrawon.com

Neu ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950.

2009

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com